



Newid Ymddygiad a'r Gymraeg

Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth
15 Gorffennaf 2014

Cynhaliwyd cynhadledd ar y thema 'Newid Ymddygiad a'r Gymraeg' gan IAITH ar fore'r 15^{fed} o Ragfyr 2014, ar y cyd â Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth. Mae 'Newid Ymddygiad' yn un o'r pedwar prif ffrwd gweithredol a nodwyd gan lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod nesaf o weithredu iaith Fyw: iaith Byw yn y ddogfen Bwrw 'Mlaen a gyhoeddwyd yn Awst 2014.¹

Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i drafod y pwnc ar ôl gwranddo ar gyflwyniadau gan:

- Gareth Ioan, Prif Weithredwr, IAITH
- Osian Elias, Myfyriwr PhD ym Mhrifysgol Aberystwyth
- Yr Athro Rhys Jones, Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth
- Dr Kathryn Jones, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil, IAITH

Ceir crynodeb o gyflwyniadau'r pedwar isod a gellir gweld sleidiau eu cyflwyniadau ar wefan IAITH.²

Twf a MINDSPACE

Gareth Ioan, Prif Weithredwr,
IAITH: y ganolfan cynllunio iaith

Amlinellodd Gareth Ioan darddiad y cysyniad o 'newid ymddygiad'. Nododd bod y syniad yn deillio o gyfuniad o nifer o theorïau a modelau cymdeithasegol:

- theorïau ynghylch ymddygiad a modelau perthynol,
- theorïau ynghylch natur newid, a
- modelau newid ymddygiad penodol.

Yn ddelfrydol dylid ystyried y gwreiddiau hynny yn llawn wrth fynd at y pwnc. Fodd bynnag, nododd mai prin yw'r drafodaeth sydd wedi ei chynnal lle mae theorïau ynghylch natur iaith ac iaith fel ymddygiad cymdeithasol wedi ei chynnwys yn y pair uchod.

¹ <http://gov.wales/topics/welshlanguage/policy/living/moving-forward/?lang=cy>

² <http://www.iaith.cymru/cy/prosiectau/cynllunwyr-iaith-cymru/newid-ymddygiad-ar-gymraeg>

Cafwyd crynodeb o gynnwys yr adolygiad o'r wybodaeth sydd ar glawr ynghylch newid ymddygiad a gynhaliwyd gan Andrew Darnton, Prifysgol Westminster, ar ran Uned Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth yn 2008.³ Yn fyr, casgliad yr adroddiad *Practical Guide: An overview of behaviour change models and their uses* (Trysorlys EM, 2008) oedd bod ymddygiad yn gymhleth ac yn amrywiol, a bod yna nifer o ffactorau dylanwadol, gan gynnwys y grwpiau canlynol o ddylanwadau:

- ffactorau cymdeithasol a seicolegol amrywiol mewn perthynas â sut mae'r unigolyn yn ymateb i'w gyd-destun cymdeithasol;
- pwysleisir nad yw pobl bob amser yn ymddwyn rhesymegol ond yn aml yn gwneud penderfyniadau ar sail emosiynol ac afresymegol;
- dywedir bod amgylchiadau a chyfleoedd yn ffactorau allweddol ac amrywiol; a
- bod gallu neu barodrwydd unigolion i newid ymddygiad hefyd yn ffactor canolog.

Fe â Darnton ymlaen i'n rhybuddio nad oes modd dibynnu ar un model penodol cyffredinol i esbonio newid ymddygiad. Diben yr amrywiol fodolau a ddisgrifir yn y ddogfen yw cynnig arfau amrywiol er mwyn deall yr ymddygiad. Awgryma y dylid canolbwyntio ar y ffactorau dylanwadol cyffredin. Yn bennaf, meddir, dylid adnabod y grŵp targed yn fwy na dim. Rhaid i weithredwyr polisi ddatblygu ymyriadau priodol ar sail adnabyddiaeth drylwyr o'r grŵp targed a'r ymddygiad targed mae'n fwriad i'w newid. Wrth wneud hynny rhaid cadw at agwedd a dull hyblyg o weithio a chynnwys y grŵp targed yn ganolog i'r broses ar hyd y daith. Crefft yw newid ymddygiad nid gwyddor.

Mae Darnton yn cyfeirio at sawl model o newid ymddygiad ond yn tynnu sylw penodol at y 'Model 4E' a ddatblygwyd gan DEFRA yn 2008, *A Framework for Pro-environmental Behaviours*.⁴ Mae'r adroddiad hwn, hefyd, yn olrhain nifer o gysyniadau amrywiol ynghylch newid ymddygiad cyn cynnig model sy'n seiliedig ar bedair egwyddor gyffredin:

- Ymgysylltu – cynnwys pobl (Engage)
- Amlygu – gosod esiampl (Exemplify)
- Annog – signalau cadarnhaol (Encourage)
- Galluogi – 'neud e'n haws (Enable)

Nododd Gareth Ioan bod yna un ffordd hawdd iawn i newid ymddygiad – deddfu. Roedd deddfu wedi sicrhau newid ymddygiad torfol a newid mewn agweddau o ganlyniad mewn sawl maes megis atal ysmegu, diogelwch mewn ceir ac ailgylchu adnoddau. Fodd bynnag, gan ddyfynnu John Aitchison a Harold Carter mentrodd bod natur cymdeithasol iaith a'r mater o newid ymddygiad ieithyddol yn dipyn mwy cymhleth na'r enghreifftiau penodol hynny:

"Language is much more than a means of communication. Not only does it carry a view of the environment... but through it's vocabulary and it's structures, through the associations generated by it's literature, through the symbol which it is and the symbols which it transmits, it creates a distinct identity which is at once a derivative of tradition and an expression of the present."

J. Aitchison & H. Carter (1994)

Mae'r heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n ystyried newid ymddygiad ieithyddol, felly, yn anferth. Nid yn unig mae'r pwnc yn dipyn mwy cymhleth ac astrus na nifer o ymyriadau polisi cyhoeddus eraill, y grwpiau targed mor amrywiol a niferus a'r ymddygiadau targed hefyd yn amrywiol eu natur a'u hamgylchiadau, ond mae'r technegau sydd angen eu defnyddio hefyd

³ http://www.civilservice.gov.uk/wp-content/uploads/2011/09/Behaviour-change_practical_guide_tcm6-9696.pdf

⁴ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69277/pb13574-behaviours-report-080110.pdf

yn gofyn am dull aml-haenog ac amrywiol o weithredu. Dydy darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ddim yn ddigon.

“Information does not necessarily lead to increased awareness, and increased awareness does not necessarily lead to action. Information provision, whether through advertisements, leaflets or labelling, must be backed up by other approaches”.

Demos & Green Alliance (2003)

I wynebu'r her rhaid gweithio ochr yn ochr â phobl – ac mae hynny'n ddrud.

Trodd Gareth wedyn at ddogfen arall allweddol a gyhoeddwyd yng nghyswllt polisi cyhoeddus a newid ymddygiad, sef *'MINDSPACE: Influencing Behaviour Through Public Policy'*, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet a'r Sefydliad er Llywodraeth yn 2010.⁵

Mae'r awduron yn cydnabod eu dyled i model 4E DEFRA ac yn nodi bod angen i bob gwneuthurwr polisi cyhoeddus dalu sylw manwl i dair agwedd sylfaenol: yr angen i gynnig anogaeth a gwybodaeth a'r angen i ystyried cyd-destun y grwp targed yn llawn.

“With this in mind, we set out nine of the most robust (non-coercive) influences on our behaviour... which can be used as a quick checklist when making policy”.

Saif pob llythyren yn y *mnemonic* MINDSPACE am un o'r naw agwedd hynny:

- **M**essenger
- **I**ncentives
- **N**orms
- **D**efaults
- **S**aliency
- **P**riming
- **A**ffect
- **C**ommitments
- **E**go

Cyfieithodd Gareth MINDSPACE i'r Gymraeg (gyda thafod yn y boch) ar y ffurf CNAPYCHEN fel a ganlyn:

- **C**ymhellion
- **N**egesydd
- **A**rferion 'set'
- **P**erthnasedd a newydd-deb
- **Y**mrwymiad
- **C**yflyru
- **H**unanfodddhad
- **E**mosiwn
- **N**ormau

Esboniodd bod tîm Twf⁶ wedi mesur eu gweithgaredd nhw fel cynllun yn erbyn y model hwn yn ystod y flwyddyn, gan ddod i'r casgliadau cryno canlynol:

- **Cymhellion:**
 - Manteision dwyieithrwydd, e.e. '8 Rheswm Da'
 - Swyddogion yn lleddfu pryderon a darparu anogaeth

⁵ <http://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/MINDSPACE.pdf>

⁶ <http://www.iaith.cymru/cy/prosiectau/prosiectau-teulu/twf>

- Negesydd:
 - Swyddogion Maes Twf – meithrin ymddiriedaeth a pherthynas bersonol
- Arferion ‘set’:
 - Amser Twf yn modelu a chefnogi arferion iaith newydd
- Perthnasedd a newydd-deb:
 - Geni plentyn yn gyfnod cyffrous (*muda* ieithyddol)
- Ymrwymiad:
 - Amser Twf, grwpiau *Facebook* ac ati yn clymu unigolion at y cynllun
 - Deunydd Twf am ddim ac yn annog ymateb
- Cyflyru:
 - Cynllun marchnata manwl yn cael ei weithredu
- Hunanfodddhad:
 - Cyfle gwell i’w plant i’r dyfodol
 - Codi hyder ieithyddol rhieni
 - Canmoliaeth barhaus i’w dewisiadau cadarnhaol
- Emosiwn:
 - Gwaith 1:1 yn hwyluso rhannu profiadau personol
 - Dyfodol eu plant yn ganolog
 - Iaith a hunaniaeth
- Normau:
 - Torri hen set o ragdybiaethau ac arferion a sefydlu’r newydd
 - Rhan o ‘Iaith Fyw’ a ‘Pethau Bychain’

Y casgliad, yn syml, oedd fod criw Twf eisoes wedi datblygu cynllun a oedd yn ddjarwybod iddyn nhw yn ateb llawer iawn o’r meini prawf a osodwyd gan y model MINDSPACE. Nododd bod cynllun Twf wedi symud yn y blynyddoedd diweddar o ddarparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth yn unig i ddarparu cyngor a chefnogaeth uniongyrchol a phenodol i rieni sy’n awyddus i newid ymddygiad ieithyddol eu teuluoedd – ymyrraeth uniongyrchol.

Un enghraifft o’r dull ymarferol a phenodol hwnnw o weithio, drwy ymgysylltu a galluogi, oedd datblygiad y prosiect *Ma’ Dy Gymraeg Di’n Grêt* (MDGDG)⁷ a ddatblygodd o’r cynllun Twf er mwyn codi hyder a chynyddu defnydd iaith ymhlith mamau ifanc. Wrth sôn am y prosiect a’i ddull gwaith nododd mai craidd yr ymagwedd waith oedd:

- creu amgylchedd ddiogel, anogol a chefnogol i rieni,
- cadarnhau eu defnydd cyfredol o Gymraeg,
- modelu arferion iaith newydd,
- cynnig cyfle ‘saff’ i siarad ac ymarfer,
- darparu gwybodaeth, a
- gosod heriau personol cyraeddadwy.

Roedd hyn wedi profi llwyddiant o ran

- codi hyder ieithyddol y mamau,
- ymestyn eu peuoedd defnydd iaith, a
- chynyddu eu defnydd iaith mewn nifer o gyd-destunau.

Roedd ymarferiadau gwerthuso hefyd wedi dangos bod y newidiadau ymddygiad yn arhosol 6 mis wedi’r ymwneud cyntaf.

I gloi clywyd nifer o famau MDGDG yn adrodd yn ysbrydoledig ar ffurf DVD ar effaith gweddnewidiol y cynllun ar eu harferion iaith o ganlyniad i’r ymyrraeth uniongyrchol a gafwyd gan swyddogion MDGDG.

⁷ <http://www.iaith.cymru/cy/prosiectau/prosiectau-teulu/ma-dy-gymrag-din-gret>

Dadansoddiad o Elfennau Ymddygiadol Bwrw 'Mlaen

Osian Elias, myfyriwr PhD ar newid Ymddygiad a Pholisi Iaith
Prifysgol Aberystwyth/Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynigiodd Osian gyflwyniad a'r teitl 'Dadansoddiad o elfennau ymddygiadol Bwrw 'Mlaen'. Diben y cyflwyniad oedd cynnig dadansoddiad o ymgais y ddogfen bolisi i ymdrin â newid ymddygiad, gan ffocysu ar y defnydd o farchnata cymdeithasol a modelau o ymddygiad. Arweiniodd hyn at drafodaeth ehangach am natur siaradwyr Cymraeg fel actorion, gan gyfeirio at y gyfundrefn Safonau Iaith arfaethedig ac ymyraethau polisi iaith sy'n arddangos rhinweddau ymyrraeth newid ymddygiad.

Agorodd Osian ei gyflwyniad drwy nodi bod dulliau marchnata cymdeithasol yn aml yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar ymddygiad unigolion. Dadleuodd bod ymdrechion i ddylanwadu ar ymddygiad ieithyddol yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddar yn cyd-fynd a hyn. Nododd Osian ddiffiniad o farchnata cymdeithasol:

“Social marketing is the application of marketing principles and techniques to foster social change”

(Lefebvre, 2013)

Gwelwn fod Bwrw 'Mlaen yn nodi'r gred bod rhaid defnyddio dulliau mwy positif o ran 'marchnata'r' Gymraeg - ond, bod y ddadl gyhoeddus ynghylch y Gymraeg yn canolbwyntio ar yr heriau. Dadleuodd Osian fod y dehongliad hwn o'r disgwrs cyhoeddus am y Gymraeg yn cyd-fynd, ac yn cyfrannu, at y dyhead i ddatblygu ymdrechion i annog defnydd o wasanaethau Cymraeg sydd wedi'i nodi yn Bwrw 'Mlaen.

I bwysleisio, ac ehangu, ar ei ddadl bod Bwrw 'Mlaen yn priodoli dulliau marchnata cymdeithasol i newid ymddygiad ieithyddol, cyfeiriodd Osian at frolio'r datganiad polisi o'r ymdrechion i newid ymddygiad ieithyddol ers 2011, a'r ymdrechion mae Llywodraeth Cymru yn fwriad i'w gwireddu dros y tair blynedd nesaf:

- *“Cyfres o ymgyrchoedd...yn defnyddio arbenigedd marchnata cymdeithasol”*
- *“Gwefan a fydd yn hyrwyddo a hysbysebu”*
- *“...defnyddio technegau marchnata cymdeithasol mewn ymyriadau ieithyddol sy'n bodoli eisoes”*
- *“...datblygu negeseuon cyson wrth ymgysylltu â'r cyhoedd”*

Dadleuodd Osian fod y bwriadau polisi yma naill yn cyfeirio yn benodol at y defnydd o ddulliau marchnata cymdeithasol, neu yn cyfeirio at faterion cysylltiedig megis datblygu negeseuon cyson neu greu gwefan i hyrwyddo a hysbysebu. Defnyddiodd Osian hyn i lunio'r ddadl bod marchnata cymdeithasol yn gysyniad canolog i strategaeth gyfredol Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y Gymraeg.

Yn dilyn o hyn, trodd Osian ei sylw at wyddor ymddygiad, gan holi i ba raddau mae ymagwedd marchnata gymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gydlynus â mewnwediadau'r gwyddorau ymddygiad.

Gyda model o ymddygiad unigolion yn sail i ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol, mae ffurf y model yn allweddol i lwyddiant ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol. Yn y datganiad polisi, Bwrw 'Mlaen, mae awgrymiad o'r model o ymddygiad y mae'r Llywodraeth yn ei ddefnyddio. Tan yn ddiweddar canfyddir unigolion fel 'actor' economaidd - bodau rhesymegol sy'n penderfynu ar eu hymddygiad ar sail budd personol:

“...utility maximizing, individual agents who rationally calculate costs and benefits.”

(Williams, 2010)

Cymharwyd y canfyddiad yma gyda model amgen o ymddygiad dynol sy'n deillio o fewnwelediadau'r gwyddorau ymddygiad. Seilir y model amgen yma ar ddwy system o feddwl sy'n pwysleisio unigolion fel actorion cymdeithasol sy'n dueddol o ymateb yn awtomatig, emosiynol, mympwyol ac anymwybodol i sefyllfaoedd ac amgylchiadau cymdeithasol.

	Adlewyrchol	Awtomatig
N o d w e d d i o n	Rheoledig	Afreoledig
	Ymdrechgar	Diymdrech
	Diddwythol	Emosiynol
	Araf	Cyflym
	Hunanymwybodol	Anymwybodol

Addaswyd o Dolan et al (2010: 14)

Nodwyd bod y model amgen yma o ymddygiad yn gorfodi ail-ystyriaeth o seiliau marchnata cymdeithasol, ac o ganlyniad - yn tanseilio'r hyn mae Bwrw 'Mlaen yn synio am ymddygiad ieithyddol.

“This shift in our understanding undermines the notion of social marketing”
(Lefebvre, 2013)

Nododd hefyd bod gwaith ymchwil diweddar yn y maes yn cadarnhau'r farn nad yw darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth yn unig yn llwyddo i newid arferion unigolion o reidrydd. Yn wir, un o brif fewnwelediadau gwyddor ymddygiad yw'r angen i alinio dyheadau a dewisiadau.

Aeth Osian ymlaen i drafod y model o ymddygiad sy'n sail i syniadaeth Bwrw 'Mlaen mewn mwy o ddyfnder, gan ei ddisgrifio fel model or-syml, mecanyddol, ac unffurf. Yn ôl Osian, mae methiant polisi iaith Llywodraeth Cymru i ymdrin â modelau amgen o ymddygiad yn amlwg wrth ystyried y Safonau Iaith arfaethedig. Dangosodd fideo a gynhyrchwyd gan Gymdeithas yr Iaith i ddarlunio'r gwrthgyferbyniad rhwng ymagwedd resymegol a mecanyddol y Safonau a'r modd afresymegol, emosiynol, byrfyfyr mae unigolion yn ymddwyn o ddydd i ddydd⁸.

Yn wyneb hyn oll, dadleuodd Osian fod angen i Lywodraeth Cymru adnabod ymyraethau polisi sy'n cydnabod gwir natur cymhlethdod sefyllfaoedd cymdeithasol a chyd-destun dewis. Cyfeiriodd Osian at y cynllun iaith Gwaith, gan ganmol y dyhead i fod yn rhagweithiol wrth gynnig gwasanaethau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg, gan:

⁸ https://www.youtube.com/watch?v=9DB_-otrrV0

“Helpu cwsmeriaid i adnabod staff Cymraeg”

“Cynnig gwasanaeth i gwsmeriaid yn eu dewis iaith yn syth”

“Datblygu gweithlu sydd yn hyderus i ddefnyddio eu sgiliau cyfathrebu Cymraeg”

Yn anffodus, nid yw'r Safonau Iaith arfaethedig yn cyd-fynd ac uchelgais y cynllun iaith Gwaith. Nododd Osian fod y cynllun iaith Gwaith yn dangos ystod o nodweddion ymyrraeth bolisi oedd yn ymwybodol o fodelau ymddygiad amgen. Cynigiodd bod amcanion ymarferol y cynllun i helpu cwsmeriaid i adnabod staff, a'r amcan i alinio ymddygiad gyda dyhead siaradwyr yn nodweddion o ymyrraeth bolisi arloesol, sy'n cymryd i ystyriaeth modelau amgen o ymddygiad.

I gloi'r cyflwyniad, cyfeiriodd Osian at nifer o adroddiadau polisi sydd wedi'u hysbysu gan fewnwelediadau o faes newid ymddygiad a'r gwyddorau ymddygiad:

- MINDSPACE (2010)
- Influencing Behaviours: Individual, Social, Material (2013)
- EAST: Easy, Attractive, Social, Timely (2014)

Newid Ymddygiad a Daearyddiaethau'r Gymraeg

Yr Athro Rhys Jones,

Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth

Agorodd Rhys Jones ei bwnc drwy nodi bod angen edrych ar fater 'newid ymddygiad' o dri persbectif:

- Moeseg – pa mor ddymunol yw ceisio dylanwadu ar ymddygiad pobl eraill o gwbl?
- Effeithiolrwydd – os yw e'n dderbyniol o ran polisi cyhoeddus, ydy e'n effeithiol, a pha dechnegau sy'n gweithio orau?
- Y cynnyrch – pa math o ddinesydd ydych chi eisiau ei greu?

O ran y cwestiynau moesegol nododd bod gwreiddiau'r cysyniad yn deillio o ymdriniaeth feirniadol o safbwyntiau rhyddfrydol a syniadau athronwyr fel J S Mill. Nododd bod cysyniadau fel theori pwtio (*nudge theory*) wedi dod i'r amlwg yn y blynyddoedd diweddar. At hynny, mae rhai yn sôn am y cysyniad o 'benseiri dewis' – hynny, ydy bod modd i asiantaethau ymyraethol drefnu amgylchiadau er mwyn dylanwadu ar ddewisiadau ymddygiadol y dinesydd. Fodd bynnag, nododd hefyd bod pob pwnc a chyd-destun yn medru amrywio a bod yn rhaid talu sylw unigol i bob bwriad, e.e. pwtio a pheidio ysmegu (gweithred ymataliol) o'i gymharu â phwtio a cynilo (gweithred weithredol). Holwyd a ydy agweddau cyffredinol gadarnhaol pobl at y Gymraeg yn cynnig tir ffrwythlon ar gyfer pwtio a cheisio newid ymddygiad?

Wrth astudio 'newid ymddygiad' rhaid yw ystyried effeithiolrwydd y cysyniad a'r gweithredu. Ydy e'r un mor effeithiol ar gyfer pob pwnc, maes, sector neu amgylchiadau? Sut mae mesur effeithiolrwydd? Pwy sy'n ei fesur? I ba ddiben yr hyrwyddir yr ymarferiad yn y lle cyntaf? At hynny, beth sy'n gwneud sefyllfa yn un addas ar gyfer penseiri dewis? Mae unigoloion yn gwneud penderfyniadau ymddygiad ar amrantiad, yn aml heb fawr o feddwl:

“Complex decisions that are made once so the decision-maker does not get much practice, decisions of which the outcomes will have consequences in the future, so the costs and benefits are unevenly distributed over time.” (Thaler a Sunstein, 2009:162)

Mae dewis pa iaith i'w siarad yn broses gymhleth gyda sawl ffactor yn dylanwadu ar y dewisiadau – cymdeithasol, seicolegol, hanesyddol, amgylcheddol ac ymddygiadol. Ond rydyn yn cael digon o ymarfer ac yn derbyn adborth ar y dewisiadau a'r adborth hynny yn ei hun yn medru atgyfnerthu dewisiadau arferol a normadol.

Nodwyd bod ymyriadau polisi cyhoeddus sy'n defnyddio 'newid ymddygiad' yn aml yn ceisio lliniaru neu waredu risgiau, e.e. ysmegu, bwyta braster, llygru. Niwed i bwy neu beth ydyn ni'n ceisio ei liniaru yn y cyswllt cynllunio iaith? Niwed i ni'n hunain fel unigolion, niwed i gymuned a chymdeithas neu niwed i endid haniaethol fel 'Yr Iaith Gymraeg'. At hynny, ydy'r un paradeim ddeuol yn berthnasol i'r Gymraeg yn yr un modd â ysmegu neu beidio ysmegu – siarad Cymraeg neu siarad Saesneg?

Yn drydydd, pa fath o ddinesydd sy'n fwrriad i'w greu? Ydyn ni eisïau polisïau sy'n ymrymuso pobl neu'n creu ffyliaid? Rhaid bod yn ofalus. Hefyd, a oes angen newid gwerthoedd pobl yn ogystal â'u hymddygiad? Gall gwerthoedd cadarnhaol gynnal newidiadau ymddygiad yn y tymor hir. Pa fath o ddinesydd ydyn ni am weld yn siarad Cymraeg o ddydd i ddydd? Ydyn i wedi ei disgrifio nodweddion y dinesydd hwnnw?

Gan droi sylw at newid ymddygiad a'r Gymraeg cyflwynodd bump o bwyntiau i ystyriaeth y gynulleidfa.

1. **Penseiri dewis:** Pwy yw'r penseiri dewis – ai llunwyr polisi, ai athrawon, ai rhieni ac ati? Os felly, mae angen hyfforddiant pwrpasol arnyn nhw i gyd er mwyn creu sefyllfaoedd sy'n mynd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Ond mae rhai o'r grwpiau hyn wedi bod yn benseiri dewis ers blynyddoedd maith – beth yw'r ffactorau sydd ar waith sy'n llywio dewisiadau o blaid y Gymraeg? Mae llawer yn y llenyddiaeth, er enghraifft, ynghylch pwysigrwydd y negesydd – pwy yn union sy'n traddodi negeseuon ac arferion i bwy?

“Rwy'n credu bod gan y plant hŷn ddylanwad mawr, a fel soniais i ynghynt, mae cael pencampwr yn helpu i osod safonau, ac yn rhywun y gall y plant ei efelychu, mae hwnna'n bwysig iawn”

(cyfweiliad gyda aelod o staff Cered).

2. **Normau cymdeithasol:** er mwyn cael ei defnyddio'n eang mae'n rhaid bod unrhyw iaith yn rhan o arferion normadol y gymdeithas a bod dinasyddion yn rhoi bri arni, gan ei defnyddio'n arferol yn hytrach nac yn eithriadol. Holwyd a ydy'r neges barhaus am dranc yr iaith yn cynorthwyo neu'n llesteirio yn hynny o beth? Mae'r unig sefyllfaoedd normadol yn cael eu cysylltu gyda'r 'Fro Gymraeg'. Pa normau cymdeithasol y gellir eu poblogeiddio ar gyfer ardaloedd y tu hwnt i'r Fro?
3. **Emosiwn a'r iaith Gymraeg:** Nodwyd bob y Gymraeg yn aml yn gysylltiedig gyda phrofiadau diflas – gwersi ail iaith undonog neu ddwrddio am siarad Saesneg. Sut gellir newid hyn fel bod emosiynau mwy cadarnhaol yn cael eu cysylltu â'r Gymraeg? Cyfeiriwyd at 'Ddamcaniaeth Hwyl' a ddefnyddir i ysgogi ymddygiad ac arferion dymunol drwy daro ar nodyn adloniadol neu ddigrif. Gweler arbrawf a ddatblygwyd gan gwmni Volkswagen: <http://www.autoblog.com/2009/10/14/video-fun-theory-part-2-vw-makes-throwing-stuff-away-fun/>
4. **Marchnata cymdeithasol:** Wrth ystyried dulliau marchnata cymdeithasol rhaid ystyried pwy yn union yw'r gynulleidfa darged. Rhaid gwahaniaethu yn go fanwl rhwng y math o amcanion sydd gennym mewn ardaloedd gwahanol ac ar gyfer carfannau gwahanol. Mae heriau a risgiau sylweddol i farchnata torfol, gan fod angen teilwra'r negeseuon bob tro.
5. **Ymrwymo a chystadlu:** Eto, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod sicrhau ymrwymiad yn allweddol. Sut mae gwneud hynny yng nghyswllt y Gymraeg?

“Rydym ni'n cael mwy o lwyddiant drwy wneud y peth yn gystadleuaeth. Chi wastad yn ffeindio, pan mae 'na gystadleuaeth, mae pobl yn newid gêr, achos maen nhw eisiau ennill gwobr.”

(cyfweiliad gyda aelod o staff Cered).

I gloi, dydy 'newid ymddygiad' ddim yn mynd i ateb yr holl heriau sy'n gysylltiedig â defnydd iaith, ond mae potensial o ran yr angen:

- i ddeall beth yw'r ymyriadau sy'n digwydd ar hyn o bryd a sut mae peth o'r gwaith hyn yn defnyddio syniadau o faes 'newid ymddygiad';
- i feddwl ynghylch beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol am siarad iaith (o gymharu ag ysmegu ac ati);
- i ddysgu mwy am yr hyn sydd wedi gweithio mewn meysydd eraill, ac wedyn treialu a gwerthuso hynny gydag ardaloedd/carfannau bychain, gan ehangu wedyn i ymyriadau mwy cyffredinol.

Iaith, Hunaniaeth a 'Hyder': rhai gwersi o ymchwil cymdeithaseg iaith

Dr Kathryn Jones, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil

IAITH: y ganolfan cynllunio iaith

Cyfrannodd Kathryn Jones rai gwersi o'r maes cymdeithaseg iaith, maes sy'n ymhél â chwestiynau megis 'beth yw iaith?' a 'beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd pobl o iaith/ieithoedd?'

Dechreuodd drwy gyfeirio at y datblygiad yn y maes Cymdeithaseg Iaith o feddwl am 'iaith' fel endid sy'n bodoli fel strwythur annibynnol i ystyried yr hyn yw 'iaith' yn nhermau ystod o 'arferion ieithyddol' sy'n cael eu gwireddu mewn arferion cymdeithasol. Mae ymchwil yn y maes cymdeithaseg iaith beirniadol hefyd yn amlygu'r modd y mae unigolion yn gwneud defnydd o'r 'adnoddau ieithyddol' sydd ganddynt (ym mha bynnag iaith/ieithoedd) wrth gyfathrebu ag eraill mewn cyd-destunau cymdeithasol amrywiol.

Cyfeiriodd at lyfr a olygwyd gan Monica Heller 'Bilingualism: A Social Approach' sy'n crisialu'r ymagwedd hon:

... reorienting studies of language, community and identity, and hence of bilingualism, away from autonomous structure and towards process and practice. What emerges now is a sense of bilingualism as only one perspective on a more complex set of practices which draw on linguistic resources which have been conventionally thought of as belonging to separate linguistic systems, because of our own dominant ideologies of language, but which may more fruitfully be understood as sets of resources called into play by social actors, under social and historical conditions which both constrain and make possible the social reproduction of existing conventions and relations, as well as the production of new ones. (Monica Heller, 2007:15)

Beth yw 'ymddygiad ieithyddol'?

Yn syml, 'ymddygiad ieithyddol' yw'r defnydd a wnawn o'r 'adnoddau ieithyddol' sydd gennym ar gyfer pwrpasau amrywiol yng nghyd-destunau amrywiol ein bywydau beunyddiol. Ein 'adnoddau ieithyddol' yw ein holl brofiadau (pleserus ac amhleserus) blaenorol o ddefnyddio iaith yn y cyd-destunau hyn. Cânt eu llunio hefyd gan yr addysg a gawsom, y fagwraeth a gawsom, ein gwerthoedd, a'r perthnasau grym mewn cymdeithas sy'n dylanwadu ar statws y Gymraeg a'r Saesneg mewn peuoedd cymdeithasol. Po fwyaf o'r Gymraeg y bydd unigolyn wedi cael y cyfle i'w defnyddio ac wedi ei defnyddio mewn gwahanol cyd-destunau, yr ehangaf fydd yr ystod o adnoddau ieithyddol sydd ganddi/ganddo.

Yr hyn sy'n gymhleth am ymddygiad ieithyddol, wrth gwrs, yw bod yr arferion ieithyddol sy'n arferol a phriodol wrth fwyta brecwast gyda'r teulu; gweithgareddau yn yr ysgol, coleg, neu gwaith; gweithgareddau amser hamdden yn amrywiol iawn. Mae 'hyder' pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau penodol yn dibynnu ar eu canfyddiad os yw eu 'hadnoddau ieithyddol' yn briodol neu yn ddigonol ar gyfer gofynion yr achlysur.



'Mudes' ieithyddol

Cyfeiriodd Kathryn at ymchwil o Gatalwnia sydd wedi mabwysiadu persbectif bywgraffiadol i fapio amrywiadau mewn arferion defnydd iaith pobl ifanc ac adnabod y ffactorau sy'n dylanwadu ar eu defnydd o'r Gatalaneg a Chastilian ar adegau gwahanol o'u bywydau, sef:

- *'Linguistic 'mudes' and the de-ethnicization of language choice in Catalonia'* gan Joan Pujolar ac Isaac González (2012); a
- *'Linguistic 'mudes: How to become a New Speaker in Catalonia'* gan Joan Pujolar a Maite Puigdevall (2014).

Yn yr ymchwil yma, roeddent wedi cynnal arolwg gyda dros 7,000 o bobl ifanc a chynnal cyfweiliadau bywgraffiadol manwl gyda 40 ohonynt er mwyn cofnodi eu harferion defnydd iaith dros gyfnod eu bywydau o'u plentyndod cynnar hyd at 35 mlwydd oed. Bathwyd y term 'muda' (unigol) a 'mudes' (lluosog) i ddynodi yr adegau allweddol lle bu newid amlwg mewn defnydd iaith.

“The concept of ‘*muda*’ or ‘*mudar-se*’ as a verb in Catalan commonly refers to ... people when they adopt a more carefully monitored appearance (as in English ‘do up’ or ‘dress up’). Here we use this term to express the fact that adopting a new language in a specific situation does involve a noticeable performative change, though not necessarily a claim to a specific ethnolinguistic ascription for self and/or others.” (Joan Pujolar ac Isaac González, 2012)

“A *muda* takes place in a very specific context and affects a limited number of relations; but it nevertheless entails an important change in qualitative terms”. (Pujolar & González 2012)

I'r pobl ifanc a holwyd, y mudes allweddol o ran newid ymddygiad ieithyddol (troi i ddefnyddio'r Catalaneg) oedd:

- ysgol feithrin /cynradd
- ysgol uwchradd
- prifysgol / coleg
- ymuno â'r farchnad lafur
- cael cymar a chreu 'teulu' newydd
- dod yn riant

Ym mhob 'muda' ceir newid arwyddocaol i arferion beunyddiol unigolion wrth iddynt ymuno â sefydliadau newydd mewn lleoliadau newydd lle mae bri ar ddefnyddio Catalan; cyfarfod ffrindiau, athrawon, cyflogwyr, cydweithwyr newydd a chyflawni gweithgareddau newydd.

Hefyd, mae 'muda' yn cynnig newidiadau pwysig yn y modd mae pobl yn trefnu dewisiadau ieithyddol. Mae'n gyfle i negodi patrymau defnydd iaith o'r newydd. Gellir cysylltu iaith gyda phobl newydd a chyd-destunau newydd a defnyddio iaith ar gyfer gweithgareddau newydd.

I'r bobl ifanc o gefndiroedd di-Catalan, roedd mynychu'r ysgol feithrin ac yna addysg statudol trwy gyfrwng y Catalan yn gyfnod o newid arferion defnydd iaith yn eu bywydau. Ceir cyfleoedd helaeth i astudio addysg bellach ac uwch trwy gyfrwng y Catalan ac felly roedd mynychu prifysgol neu goleg yn gyfle i eraill gryfhau eu defnydd o'r Catalan. Mae'r polisïau sydd wedi normaleiddio'r defnydd o'r Catalan fel prif gyfrwng iaith y gweithle yn y sector gyhoeddus, yn arbennig, yn golygu bod ymuno â'r farchnad lafur yn cynnig trobwynt arall i rai. Yna, roedd cyfarfod cymar sy'n siarad Catalan neu dod yn riant a phenderfynu trosglwyddo Catalan i'r plant yn ddigwyddiadau oedd yn gallu dwysau arferion ieithyddol cyfrwng Catalan.

Amlyga'r ymchwil yma bod cyfleoedd i gynyddu neu leihau defnydd unigolyn o'r Catalan yn codi ar hyd cyfnodau bywyd a'i bod yn bwysig i'r maes Polisi a Chynllunio iaith gydnabod hynny yn hytrach na ffocysu ar un cyfnod mewn bywyd yn unig.

I gloi, rhai o'r gwersi sy'n codi o'r ymchwil yma o ran cynllunio ymyraethau i ddylanwadu ar ymddygiad ieithyddol yw cydnabod:

- Nad yw arferion ieithyddol unigolion o reidrwydd yn aros yr un fath trwy holl gyfnodau bywyd, ceir cyfleoedd newydd i ail ddiffinio ac felly newid patrymau defnydd iaith;
- Nid yw 'gallu' ieithyddol yn cael ei feithrin trwy addysg yn unig, mae unigolion yn datblygu eu storfa o 'adnoddau ieithyddol' o'u holl profiadau bywyd;
- Mae normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg statudol, ôl statudol ac mewn gweithleoedd yn cryfhau'r cyfleoedd i bobl wneud defnydd o'r Gymraeg ar adegau gwahanol mewn bywyd;
- Mae hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i ddarpar rieni a rhieni plant ifanc yn gallu bod yn neges bwysig ar drothwy / dechrau cyfnod allweddol bywyd sy'n ysgogi newid defnydd iaith.